

CYNGOR GWYNEDD

Adroddiad i gyfarfod o Gyngor Gwynedd

Dyddiad y Cyfarfod: 19 Mai 2022

Teitl yr Eitem: Cydbwysedd gwleidyddol y Cyngor

Swyddog Cyswllt: Geraint Owen,
Pennaeth Gwasanaethau Democratiaeth

1. PENDERFYNIAD

Gofynnir i'r Cyngor:

- 1.1 fabwysiadu'r rhestr o bwyllgorau ac is-bwyllgorau i'w sefydlu ar gyfer y flwyddyn fwrdeistrefol 2022/23 fel a nodir yn Atodiad A (i ddilyn), ynghyd â mabwysiadu'r dyraniad seddau a nodir yn yr atodiad.
- 1.2 ddirprwyo'r hawl i'r Pennaeth Gwasanaethau Democratiaeth wneud penodiadau i'r pwyllgorau ar sail cydbwysedd gwleidyddol ac yn unol â dymuniadau'r grwpiau gwleidyddol
- 1.3 mabwysiadu cadeiryddiaethau'r pwyllgorau craffu ar sail cydbwysedd gwleidyddol, fel a ganlyn:

	Sedd i'w dyrannu i:
Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi	Grŵp (i'w gadarnhau)
Pwyllgor Craffu Cymunedau	Grŵp (i'w gadarnhau)
Pwyllgor Craffu Gofal	Grŵp (i'w gadarnhau)
- 1.4 Fabwysiadu'r uwch-gyflogau ar gyfer 2022/23 gan ofyn i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth adolygu ar gyfer 2023/24
- 1.5 Gadarnhau'r dyraniad swyddi ac oriau ar gyfer Swyddogion cefnogi grwpiau gwleidyddol a hynny am dymor y Cyngor, oni bai bod newid sylweddol yng nghydbwysedd gwleidyddol y Cyngor neu bod grŵp gwleidyddol â llai na 10% o aelodau.
- 1.6 Fabwysiadu'r dyraniad seddau ar gyfer Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri ac Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru am dymor y Cyngor hwn oni bai fod adolygiad yn ofynnol oherwydd newid i'r cydbwysedd gwleidyddol neu ddiffyg ymrwymiad gan aelod unigol.

- 1.7 Enwebu aelodau i gynrychioli'r Cyngor ar y Panel Heddlu a Throsedd am dymor y Cyngor hwn yn unol a'r dyraniad a roddwyd i Wynedd.

2. CEFNDIR A RHESYMEG

2.1 CYDBWYSEDD GWLEIDYDDOL Y CYNGOR

- 2.1.1 Yn unol â darpariaethau Deddf Llywodraeth Leol a Thai 1989, Adran 15, mae'n rhaid i'r Cyngor sicrhau bod cyfansoddiad ei bwyllgorau ac is-bwyllgorau yn adlewyrchu cryfderau'r gwahanol grwpiau gwleidyddol ar y Cyngor.
- 2.1.2 Mae'n ofynnol i'r Cyngor wneud hynny o leiaf yn flynyddol, a hynny yng nghyfarfod blynyddol y Cyngor. Yn ogystal bydd rhaid adolygu mewn unrhyw gyfarfod arall o'r Cyngor pan fo newid i'r cydbwysedd gwleidyddol.
- 2.1.3 Ar ddechrau tymor newydd o'r Cyngor mae rheidrwydd hefyd i adolygu'r dyraniad o unrhyw swyddi gwleidyddol rhwng y grwpiau.
- 2.1.4 Mae gofynion statudol hefyd yn nodi'r angen i fabwysiadu'r rhest o bwyllgorau ac is-bwyllgorau i'w sefydlu ar gyfer y flwyddyn fwrdeistrefol.
- 2.1.5 Pan ysgrifennwyd yr adroddiad nid oedd union gydbwysedd gwleidyddol y Cyngor yn wybyddus.
- 2.1.6 Yn unol â threfn y Cyngor hwn, cynhelir cyfarfod o Grŵp Busnes y Cyngor, sef cyfarfod o Arweinyddion y grwpiau gwleidyddol. Byddant yn trafod y mater er cyflwyno argymhellion i'r Cyngor Llawn.
- 2.1.7 Bydd y Grŵp Busnes yn cyfarfod ar 16eg Mai, 2022 ac adroddir ar adborth trafodaethau y Grŵp Busnes yng nghyfarfod y Cyngor.

2.2 DYRANIAD Y SEDDAU AR BWYLLGORAU

- 2.2.1 I atgoffa'r aelodau, nodir yma'r pedair prif reol yn Neddf Llywodraeth Leol a Thai 1989 ynglŷn â dyrannu seddau:-
- 2.2.2 (a) Ni chaiff pob sedd ar bwyllgor ei dyrannu i'r un grŵp gwleidyddol;
- (b) Rhaid dyrannu mwyafrif y seddau ar bwyllgor i grŵp gwleidyddol os yw nifer y personau sy'n perthyn i'r grŵp yn fwyafrif o aelodau'r Cyngor;
- (c) Yn amodol ar baragraffau (a) a (b) uchod, bydd nifer y seddau ar y pwyllgorau cyffredin a ddyrennir i bob grŵp gwleidyddol yr un fath â'r nifer o'r holl seddau sydd gan aelodau'r grŵp hwnnw ar y Cyngor;
- (ch) Yn amodol ar (a),(b) ac (c) uchod, bydd nifer y seddau ar bwyllgor a ddyrennir i bob grŵp gwleidyddol yr un gyfran o'r seddau ar y pwyllgor â'r nifer o seddau sydd gan aelodau'r grŵp hwnnw ar y Cyngor.
- 2.2.3 Er mwyn sicrhau y glynir wrth y rheolau hyn, mae'r Cyngor wedi bod yn ymdrin â phwyllgorau mewn blociau gwahanol yn y gorffennol. Mae hyn yn ei wneud yn haws

i sicrhau y glynir wrth reol (c) ym mharagraff 2.2.2 uchod hefyd.

3. CADEIRYDDIAETHAU AC IS-GADEIRYDDIAETHAU

- 3.1 **Pwyllgorau Craffu** - Yn unol â gofynion adrannau 66 - 75 Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 ("y Mesur") mae'n ofynnol dyrannu cadeiryddiaethau'r pwyllgorau craffu er mwyn sicrhau, cyn belled ag y bo modd, fod cydbwysedd gwleidyddol yn cael ei adlewyrchu yn y cadeiryddiaethau hynny a bod y grwpiau nad ydynt yn cael eu cynrychioli ar y weithrediaeth yn cael cyfran deg o'r cadeiryddiaethau.
- 3.2 Nid oes unrhyw ddarpariaeth statudol na chyfansoddiadol yn rheoli'r penodiadau i'r is-gadeiryddiaethau.
- 3.3 Pan ysgrifennwyd yr adroddiad nid oedd union gydbwysedd gwleidyddol y Cyngor nac aelodaeth y weithrediaeth yn hysbys, O'r herwydd, ac yn unol â threfniadau y Cyngor hwn, gofynnwyd i Grŵp Busnes y Cyngor gyfarfod i drafod y mater er cyflwyno argymhellion ar gadeiryddiaethau craffu, sy'n cyd-fynd a'r rheolau statudol, i'r Cyngor Llawn.
- 3.4 Nid oes unrhyw ddarpariaeth statudol na chyfansoddiadol yn rheoli'r penodiadau i gadeiryddiaethau gweddill y pwyllgorau (heblaw fel a nodir isod)

Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio - Yn unol â gofynion Rhan 1 Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, Aelod Lleyg fydd yn Gadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio. Mater i'r Pwyllgor yw penodi'r cadeirydd o blith yr Aelodau Lleyg a benodwyd gan y Cyngor ar 03/03/2021.

Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd - Yn unol ag adran 14 o'r Mesur y Cyngor Llawn sydd i benodi cadeirydd y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd. Ni all benodi aelod o grŵp gwleidyddol sy'n cael ei gynrychioli ar y weithrediaeth. Gan nad yw aelodaeth y weithrediaeth yn hysbys eto, bydd y Cyngor Llawn yn penodi Cadeirydd i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd yn ei gyfarfod ar 23 Mehefin 2022.

Pwyllgor Trwyddedu - ni chaiff aelod o'r weithrediaeth gadeirio'r Pwyllgor Trwyddedu.

- 3.5 Y pwyllgorau eu hunain fydd yn ethol eu cadeirydd yn yr achosion hyn yn amodol ar y rheolau gweithdrefn sy'n cyfyngu tymor Cadeirydd i 2 flynedd.

4. UWCH GYFLOGAU

- 4.1 Mae arweiniad diweddaraf Panel Annibynnol ar Gydnabyddiaeth Ariannol yn nodi fod hawl gan Gyngor Gwynedd i benodi hyd at 18 uwch gyflog. Nid oes newid i'r uchafswm o uwch gyflogau wedi bod ar gyfer 2022/23.
- 4.2 Yn flaenorol, dyrannwyd yr 18 uwch gyflog fel a ganlyn:
- Arweinydd
 - Dirprwy Arweinydd
 - Hyd at 8 aelod arall o'r Cabinet
 - Arweinydd yr Wrthblaid fwyaf *
 - Cadeiryddion Pwyllgorau
 - Pwyllgorau Craffu (x3)

- Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio
 - Pwyllgor Cynllunio
 - Pwyllgor Trwyddedu (mae'r pwyllgor Trwyddedu Canolog a Chyffredinol yn cael ei drin fel un pwyllgor)
 - Pwyllgor Pensiynau
- 4.3 Fel sydd wedi ei amlygu uchod, mae Cadeiryddiaeth y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio i'w benodi i Aelod Lleyg. Mae trefniadau gwahanol yn bodoli ar gyfer cydnbayddiaeth Ariannol i'r rôl honno.
- 4.4 Adroddwyd ar yr uchod i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth ar 17 Chwefror 2022. Penderfynodd aelodau'r Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth y dylid argymhell i'r Cyngor llawn:
- a) bod y rhestr uwch gyflogau yn parhau i gynnwys yr un rolau, namyn Cadeirydd Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio (rhestr newydd wedi ei gynnwys ar ddiwedd tabl Atodiad A)
 - b) bod aelodau'r Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth yn adolygu'r rhestr ymhellach ar gyfer 2023/24.

5. SWYDDOGION CEFNOGI GRWPIAU GWLEIDYDDOL

- 5.1 Yn unol â gofynion Rheoliadau Llywodraeth Leol (Pwyllgorau a Grwpiau Gwleidyddol) 1990 mae'n ofynnol adolygu dyraniad y cymorth gwleidyddol rhwng y grwpiau yn ôl cryfder y grwpiau sydd â hawl iddynt.
- 5.2 Atgoffir y Cyngor bod rhai cyfyngiadau ar y nifer o swyddi o'r fath; dim ond grwpiau sydd â 10% o seddau ar y cyngor sydd yn medru cael cymorth gwleidyddol ac mae cyfyngiad o dri i bob cyngor.
- 5.3 Yn achos y Cyngor hwn felly, ac yn amodol ar dderbyn cadarnhad ffurfiol o aelodaeth y grwpiau gwleidyddol, dim ond grwpiau Plaid Cymru ac Annibynnol sydd yn gymwys. O fewn y gyllideb sydd ar gael rhennir yr oriau rhwng y grwpiau yn ôl cryfder cymharol y grwpiau, hynny yw ar sail cydbwysedd gwleidyddol y Cyngor.
- 5.4 Bydd y swyddi a'r dyraniadau oriau yn parhau am dymor y Cyngor. Bydd yn ofynol eu hadolygu os oes newid sylweddol i'r cydbwysedd gwleidyddol ac/neu fod grŵp gwleidyddol â llai na 10% o aelodau

6. CYRFF ALLANOL

- 6.1 Mae gan y Cyngor gynrychiolaeth ar nifer health o gyrff allanol. Yn wir mae rhestr helaeth ohonynt, gyda'r cyrff hyn yn amrywio'n fawr - mae rhai yn genedlaethol, rhai yn lleol eu naws, rhai yn elusennau, rhai yn gwmnïau ac yn y blaen. Enwebir y rhan helaethaf o'r cynrychiolwyr gan Aelodau'r Cabinet.
- 6.2 Y Cyngor, serch hynny, sy'n penderfynu a chymeradwyo dyraniadau'r seddau i gyrff sydd angen eu gwneud ar sail cydbwysedd gwleidyddol. Mae dau o'r rhain, sef
- Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri, ac

- Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru

- 6.3 Bydd yr aelodau a enwebir i gynrychioli'r Cyngor ar y cyrff allanol yn gwasanaethu ar y cyrff hyn am dymor y Cyngor oni bai fod newid sylweddol i gydbwysedd gwleidyddol neu ddiffyg ymrwymiad gan aelod unigol. Mae'n hanfodol fod y cynrychiolwyr hynny yn ymrwymo'n llawn i'r swydd ac yn mynychu cyfarfodydd y gwahanol gyrff yn gyson.
- 6.4 Panel Heddlu a Throsedd. Bydd yn ofynnol i'r Cyngor adnabod aelodau i gynrychioli'r Cyngor ar Banel Heddlu a Throsedd. Bydd aelodaeth y panel yn adlewyrchu'r cydbwysedd gwleidyddol ar draws Gogledd Cymru mor agos a phosib. Nid yw'r wybodaeth am y dyraniad seddau ar y Panel fydd ar gael i Wynedd gennym wrth i'r adroddiad gael ei ysgrifennu. Bydd yn ofynnol i'r Cyngor adnabod cynrychiolwyr yn ystod cyfarfod y Cyngor.
- 6.5 Mae'n ofynnol fod aelodau a enwebir i'r Panel Heddlu a Throsedd yn meddu ar wybodaeth a'r profiad angenrheidiol er mwyn i Banel Heddlu a Throsedd gyflawni ei swyddogaethau yn effeithiol, a dylid cymryd hyn i ystyriaeth wrth enwebu cynrychiolwyr. Cyflwynir yr enwau i'r Ysgrifennydd Cartref am gymeradwyaeth

7. UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN ARGYMELL Y PENDERFYNIAD

- 7.1 Yn unol â'r arfer byddwn yn ymgynghori gyda Grŵp Busnes y Cyngor ar 16 Mai 2022.
- 7.2 Nodwyd yn yr adroddiad yr ymgynghorwyd â'r Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth ar gyfer yr elfen Uwch gyflogau.
- 7.3 **SYLWADAU'R SWYDDOGION STATUDOL:**

Swyddog Monitro:

Rwy'n fodlon gyda priodoldeb yr adroddiad gan nodi fod gwybodaeth bellach i'w chynnwys. Mae'n adlewyrchu'r sefyllfa gyfreithiol yn gywir.

Swyddog Cyllid Statudol:

Dim i'w ychwanegu i'r adroddiad o safbwynt priodoldeb ariannol.

ATODIAD A – DYRANIAD SEDDI AR BWYLLGORAU

A	Plaid Cymru	Annibynnol	Llais Gwynedd	Llafur Rhyddfrydol	Aelod Unigol	Cyfanswm
Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi						18
Pwyllgor Craffu Cymunedau						18
Pwyllgor Craffu Gofal						18
Llywodraethu ac Achwilio						12

B	Plaid Cymru	Annibynnol	Llais Gwynedd	Llafur Rhyddfrydol	Aelod Unigol	Cyfanswm
Gwasanaethau Democrataidd						15
Cynllunio						15
Trwyddedu Canolog						15
Iaith						15
Penodi Prif Swyddogion						15
Apelau Cyflogaeth						7

Nifer y seddau						148
-----------------------	--	--	--	--	--	------------

C	Plaid Cymru	Annibynnol	Llais Gwynedd	Llafur Rhyddfrydol	Aelod Unigol	Cyfanswm
Pensiynau						7
Cydbwyllgor Ymgynghorol Lleol						11
CYSAG						7
Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y cyd						8

Cyfanswm y seddau						181
--------------------------	--	--	--	--	--	------------

Noder fod yr 17 uwch gyflog sydd i'w neilltuo ar gyfer blwyddyn Ariannol 2022/23 fel a ganlyn:

- Arweinydd
- Dirprwy Arweinydd
- Hyd at 8 aelod arall o'r Cabinet
- Arweinydd yr Wrthblaid fwyaf *
- Cadeiryddion Pwyllgorau
 - Pwyllgorau Craffu (x3)
 - Pwyllgor Cynllunio
 - Pwyllgor Trwyddedu (mae'r pwyllgor Trwyddedu Canolog a Chyffredinol yn cael ei drin fel un pwyllgor)
 - Pwyllgor Pensiynau